PET(4)-07-11 p7a

## P-04-350 Cadw'r gwasanaethau y mae Sporttrain yn eu darparu yn y Rhondda a Chaerdydd

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gadw'r gwasanaethau cymunedol hanfodol y mae Sporttrain yn eu darparu yn y Rhondda ac yn Grangetown, sef:

- hyfforddiant gwaith i bobl ifanc;
- hyfforddiant ymgysylltu i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- dysgu cymunedol;
- gwasanaethau lles, cymorth a chwnsela i bobl ifanc;
- hyfforddiant chwaraeon a gweithgareddau cymunedol i bobl ifanc.

**Prif ddeisebydd:** Gareth Holohan

**Y dyddiad yr ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf:** 29 Tachwedd 2011

**Nifer y deisebwyr:** Tua 2,000

**Gwybodaeth ategol:**
Bwriedir cau canolfannau Sporttrain yn y Rhondda ac yn Grangetown ym mis Ionawr 2012, gan ddileu gwasanaeth hanfodol i bobl ifanc a gadael bwlch yn y cymunedau hyn.
Gallai hynny gael cryn effaith ar lefelau ymgysylltu ymysg pobl ifanc, ac ar gyflogaeth, troseddu ac iechyd yn yr ardaloedd hyn.
Mae Sporttrain yn llwyfan pwysig i bobl ifanc nad oes ganddynt drywydd arall yn eu bywydau, gan gynnwys y rheini na allant ymgysylltu â'r ysgol, y coleg, hyfforddiant neu gyflogaeth, gan roi iddynt y gefnogaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i drawsnewid eu bywydau.
Mae nifer o gyflogwyr lleol yn recriwtio'n uniongyrchol o Sporttrain, oherwydd mae ganddynt brofiad o weld bod gan ein pobl ifanc y sgiliau, yr agwedd a'r ethos sydd eu hangen i fod yn weithwyr effeithiol. Mae cyflogwyr wedi mynegi pryder y bydd dileu gwasanaeth Sporttrain yn arwain at brinder o bobl ifanc sydd â'r sgiliau angenrheidiol yn yr ardal.
Mae cyrff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, gan gynnwys Gyrfa Cymru, y gwasanaethau cymdeithasol a thimau troseddau ieuenctid wedi dweud mai 'Sporttrain yw'r ateb mwyaf effeithiol sydd ar gael ar gyfer nifer o'r bobl ifanc rydym yn delio â nhw'.

Bydd dileu gwasanaeth Sporttrain yn cael effaith uniongyrchol ar y bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf, gan gynnwys y rheini:

- nad ydynt wedi bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ers cryn amser;
- sydd ag anhawster dysgu;
- sydd â'r lefelau sgiliau isaf;
- sydd â'r problemau personol neu emosiynol mwyaf;
- a gafwyd yn euog o gyflawni trosedd.

Mae arweinwyr cymunedau, Cymunedau'n Gyntaf, a heddweision lleol i gyd wedi mynegi eu pryder y byddai dileu gwasanaethau Sporttrain yn cael effaith andwyol ar lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu, sydd wedi gwella o gael Sporttrain wrth galon y cymunedau hyn.

Rydym yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wrando ar leisiau'r bobl ifanc hyn, ac i gymryd sylw o rybuddion yr asiantaethau annibynnol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc yn y cymunedau hyn.